Ysgol Llanhari

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | post@llanhari.cymru
www.llanhari.cymru

11eg o Ragfyr 2025

Annwyl Rieni a Gofalwyr Ysgolion YGGG Llantrisant, Ysgol Gymraeg Tonyrefail ac Ysgol Dolau

Ysgrifennaf atoch er mwyn rhannu newyddion da gyda chi. Yn ystod y tymor hwn, arolygwyd Ysgol Llanhari gan Estyn a phleser bellach yw gallu cyflwyno'r adroddiad i chi.

https://www.estyn.llyw.cymru/app/uploads/2025/11/Adroddiad-arolygiad-Ysgol-Llanhari-2025.pdf

Rwy'n hynod o falch o'r adroddiad hwn gan i'r arolygwyr gael argraff ffafriol iawn o'r ysgol pan ymwelon nhw â ni ym mis Hydref eleni. Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod cryfderau niferus yr ysgol sy'n cynnwys ein gwaith fel clwstwr o ysgolion ac rwy'n siwr y byddwch chi wrth ei ddarllen, yn falch iawn o fod yn ddarpar aelod o Deulu Llanhari. Nodir yn benodol yr isod fel cryfderau'r ysgol :

- Cymuned gynhwysol a gofalgar – disgyblion yn gwrtais, parchus ac yn teimlo'n ddiogel
- Addysgu cadarnhaol – athrawon yn creu amgylchedd cefnogol gyda gweithgareddau pwrpasol a chyfarwyddiadau clir
- Cwricwlwm cyfoethog – hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol, iechyd a lles, a chyfleoedd teithiau addysgiadol
- Ymddygiad - disgyblion yn hynod gwrtais a pharchus, gyda pharodrwydd amlwg i gydweithio a thrafod
- Gofal bugeiliol o safon uchel a chefnogaeth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol,
- Arweinyddiaeth glir – Pennaeth a Thîm Awain gyda gweledigaeth gadarn sy'n seiliedig ar werthoedd *Cymuned, Cymreictod a Chynnydd*

Yn ystod yr wythnosau diwethaf hefyd derbyniwyd cadarnhad mai Cwmni adeiladu Willmot Dixon fu'n llwyddiannus yn ennill y cytundeb i adeiladu ysgol newydd i Lanhari. Nid ydym wedi cwrdd â chynrychiolwyr y cwmni eto ond mae trafodaethau yn digwydd gyda'n swyddog cyswllt o adran ysgolion 21ain ganrif yr Awdurdod. Gobeithiwn y gallwn rhannu cynlluniau gyda chi fel darpar rieni tua diwedd Tymor y Gwanwyn. Mae'n gyfnod cyffrous i Ysgol Llanhari!

Yn gywir

Meinir Thomas
Pennaeth

Ysgol Llanhari

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | post@llanhari.cymru
www.llanhari.cymru

11th of December 2025

Dear Parents and Carers of YGGG Llantrisant, Ysgol Gymraeg Tonyrefail and Ysgol Dolau

I'm writing to share some good news with you. During this term, Ysgol Llanhari was inspected by Estyn and it is now a pleasure for me to share the report with you.

https://estyn.gov.wales/app/uploads/2025/11/Inspection-report-Ysgol-Llanhari-2025.pdf

I am extremely proud of this report as the inspectors had a very favourable impression of the school when they visited us in October of this year. This report recognizes the school's many strengths which includes our work as a cluster of schools and I am sure that when you read it, you will be very proud of being a prospective member of *Teulu Llanhari*. The following are specifically identified as the school's strengths:

- An inclusive and caring community - pupils are polite, respectful and feel safe
- Teaching is a strength – teachers create a supportive environment with purposeful activities and clear instructions
- A rich curriculum – promoting international languages, health and wellbeing and numerous educational visits
- Pupils' behaviour – they are extremely polite and respectful, with a clear willingness to collaborate and discuss
- High quality pastoral care and support for pupils with Additional Learning Needs,
- Clear leadership – Headteacher and Leadership team have a solid vision based on the values of *Community, Welshness and Progress (Cymuned, Cymreictod a Chynnydd)*

During the last few weeks it has been confirmed that Willmot Dixon Contractors were successful in the tender process to build a new school for Llanhari. We have not met with them thus far but discussions with our link 21st Century Schools' officer from the Local Authority are ongoing. We hope to be able to share further plans with you as prospective parents towards the end of the Spring Term. It's an exciting time at Ysgol Llanhari!

Yours sincerely

Meinir Thomas

Meinir Thomas
Headteacher